adnabod awdur

MAIR WYNN HUGHES

Unig blentyn oeddwn i, ac roedd fy rhieni, a Taid oedd yn byw gyda ni, yn ddarllenwyr brwd. Wrth gwrs, doedd dim sôn am deledu yr adeg honno, ac rwy'n cofio treulio nosweithiau braf yn eistedd wrth danllwyth o dân ac yn darllen. A phan ddeuai'n amser gwely, byddwn yn sleifio llyfr i fyny gyda mi ac yn darllen â chymorth fflachlamp o dan y cynfasau. Doedd dim rhyfedd fod Mam yn galw a galw arna i yn y bore!

Rydw i'n dal i ddarllen . . . a darllen . . . a darllen. Pob math o lyfrau. Mae Tom, fy ngŵr, yn dweud y buasen ni'n deulu cyfoethog, oni bai fy mod i'n gwario ffortiwn ar lyfrau! Ond rydw i'n mwynhau gwylio'r teledu hefyd—*Pobol y Cwm, Coronation Street* a *C'mon Midffild,* ac unrhyw raglen ar natur a chadwraeth.

Dechrau sgrifennu pan oeddwn yn athrawes wnes i. Erstalwm byddwn yn sgrifennu gyda phensel, yna teipio ac ailddeipio nes cael y stori'n iawn. Ond rŵan mae gennyf brosesydd geiriau a byddaf yn teipio'n syth ar y sgrin. Byddaf yn dechrau sgrifennu tua naw o'r gloch y bore . . . yn cael sawl paned o de . . . ac yn gorffen tua hanner awr wedi dau.

Ond gan fy mod yn byw ar fferm, nid gwaith tŷ yn unig sydd i'w wneud. Os bydd Tom am fynd â gwartheg i'r farchnad ac yn galw arna i i helpu, bydd rhaid anghofio am sgrifennu yr adeg honno a brysio i lwytho'r trelar mawr!

Mae syniadau'n dod o bobman, a hynny heb eu disgwyl weithiau. Rydw i'n cael pleser mawr wrth weithio ar syniad, wrth feddwl am gymeriadau a chael enwau iddyn nhw ac wrth sgrifennu'r stori wedyn. Ond y pleser mwyaf un yw agor y parsel o'r Wasg a gweld y llyfr wedi'i orffen. Byddaf yn gafael ynddo, yn ei droi yn fy nwylo, yn edrych ar y lluniau, ac yn darllen y stori (er mai fy stori i ydi hi, mae hi'n edrych yn wahanol mewn llyfr, rywsut!) . . . ac yn dweud yn ddistaw bach wrthyf fy hun—Fy llyfr i yw hwn!

Mair Wynn Hughes.

adnabod AWDUR . . .

'Fy hoff ddiddordeb yw sgrifennu. Mae eistedd o flaen y cyfrifiadur a gweld y stori'n tyfu a datblygu ar y sgrin yn rhoi gwefr arbennig i mi. Mae'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd yn fyw yn fy meddwl, a byddaf yn dyheu am weld popeth yn disgyn i'w le. Ac, wrth gwrs, mae gweld y llyfr gorffenedig yn y siopau wedyn yn brofiad arbennig!'

Mair Wynn Hughes

Adnabod Awdur...

Cefais fy ngeni ym Mryncir, Eifionydd, pentref bychan heb fod ymhell o'r Lôn Goed. Es i Ysgol Gynradd Brynengan, wedyn i Ysgol Dyffryn Nantlle, ac yna i'r Coleg Normal ym Mangor. Bûm yn athrawes ym Mhentraeth, Ynys Môn, ac yna'n wraig fferm yn yr un ardal. Erbyn hyn, mae Tom a minnau wedi ymddeol ac wedi gadael y fferm i fyw yn y pentref.

Rwy'n fam i Rhian a Iona, ac yn nain i Catrin a Dafydd.

Rydw i wrth fy modd yn darllen. Mae silffoedd a chypyrddau ein tŷ ni yn llawn dop o lyfrau. Does dim rhyfedd bod Tom yn taeru y buasem ni'n deulu cyfoethog taswn i'n gwario llai ar lyfrau! Byddaf yn prynu pentwr o lyfrau ar fy ngwyliau. Fy hoff le i ymweld ag ef ydi'r Gelli Gandryll. Mae'r pentref yma'n llawn o lyfrau o bob math, gan gynnwys un neu ddau o fy llyfrau i hyd yn oed!

Ond fy hoff ddiddordeb yw sgrifennu. Mae eistedd o flaen y cyfrifiadur a gweld y stori'n tyfu a datblygu ar y sgrin yn rhoi gwefr arbennig i mi. Mae'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd yn fyw yn fy meddwl, a byddaf yn dyheu am weld popeth yn disgyn i'w le. Ac, wrth gwrs, mae gweld y llyfr gorffenedig yn y siopau wedyn yn brofiad arbennig!

Byddaf yn dechrau sgrifennu tua hanner awr wedi naw y bore, ac os bydd y stori'n datblygu'n hawdd, byddaf yn dal ati trwy'r dydd. Mae pob awdur yn sgrifennu'n wahanol. Awdur 'ffwrdd-â-hi' ydw i. Fydda i ddim yn cynllunio'r stori ymlaen llaw. Mi fydda i'n meddwl am gymeriadau, yna'n eu gosod mewn sefyllfa arbennig ar ddechrau'r stori, a rywsut wn i ddim sut maen nhw'n meddiannu'r stori, ac yn bihafio'n wahanol i'r hyn oeddwn i wedi'i fwriadu! Ac felly, bydd datblygiad y stori yn 'syrpreis' i mi yn aml.

Byddaf yn cael trafferth ofnadwy gyda theitlau fy storïau, a chan nad oes neb o'r teulu'n darllen fy ngwaith nes iddo ymddangos mewn llyfr, bydd yn rhaid i mi ofyn am help gan y wasg weithiau! Ond er gwaethaf ambell anhawster, mae bywyd awdur wrth fy modd.

Mair Wynn Hughes.

Lluniau: Martin Roberts
Cyngor Llyfrau Cymru 1998

Llyfrau Mair Wynn Hughes sy'n dal mewn print:

I'R PLANT IAU
Brawd Newydd
Colli Pêl
Dwyn Afalau
Ffrindiau Pennaf
Ragsi Ragsan *Lolfa 95c yr un*
Rêl Ditectifs! *Gomer £2.95*
Magu Croen Rhag Poen *Gomer £4.50*
Morus Mihangel a'r Deisen *Dref Wen £3.35*
Gwyliau Morus Mihangel *Dref Wen £3.75*
Cofiwch Bwyso'r Botwm Neu... *Gomer £4.50*
Wichiaid Môn *£1.50*
Wichiaid Môn a'r Perl Gwerthfawr *£2.10*
Wichiaid Môn ac Ysgol y Glannau *£1.50 Gwasg Tŷ ar y Graig*
Wichiaid Môn a Chosyn Mwya Cymru *£3.15*
Wichiaid Môn a Lladrad y Banc *£3.35*
Wichiaid Môn a'r Modur Wich Un *£3.50 Gwasg y Dref Wen*
Wali Wmff *£2.25*
Wali Wmff ar Lan y Môr *£2.50*
Wali Wmff ar y Fferm *£2.25*
Wali Wmff yn y Ffair *£2.50*
Wali Wmff yn y Syrcas *£3.50*
Wali Wmff yn yr Ysgol *£2.25*
Llyfr Lliwio Llawn Wmff *£1.95 Gomer*
Y Diafol yn y Mynydd *£3.50 Gomer*
Prins yr Injan Fach *£2.25*
Prins a Siôn Corn *Dref Wen £2.75*
Cyfres Nofelau Prosiect Gwreiddiau:
O'r Tywyllwch *Gomer £3.25*
Nofelau Project Hanes Cymru: Caleb *Gomer £2.50*

I'R ARDDEGAU
Angharad *Gomer £3.75*
Byth Ffarwél *Gomer £3.25*
Bywyd am Fywyd *Gomer £3.95*
◆ Coch yw Lliw Hunllef *Gomer £3.95*
Cyfres Llinynnau: Jan *Dref Wen £2.99*
Heia Sbecs! *Gomer £4.95*
◆ Llygedyn o Heulwen *Gomer £4.50*
Mêl i Gyd? *Gomer £4.50*
Tipyn o Smonach *Gomer £4.75*
Hirddydd Haf *Gomer £2.50*
◆ Llinyn Arian *Gomer £2.50*
Yr Un yw'r Frwydr *Gomer £2.75*

◆ GWOBRAU
1984 Gwobr Tir na n-Og am *Y Llinyn Arian*
1990 Gwobr Tir na n-Og am *Llygedyn o Heulwen*
1996 Gwobr Tir na n-Og am *Coch yw Lliw Hunllef*

LLYFRAU Mair Wynn Hughes